SL(6)033 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2021

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 ('y Rheoliadau Optegol') sy'n darparu ar gyfer taliadau i'w gwneud drwy gyfrwng system dalebau mewn perthynas â chostau a ysgwyddir gan gategorïau penodol o bersonau mewn cysylltiad â phrofion golwg a chyflenwi, cyfnewid a thrwsio cyfarpar optegol.

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 1(2) o'r Rheoliadau Optegol er mwyn cyfeirio at gynnydd o 1.9% yn y ffi ar gyfer prawf golwg y GIG o 1 Ebrill 2021.

Y weithdrefn

Gwneud Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Bydd y darpariaethau o dan reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn cael effaith ôl weithredol o 1 Ebrill 2021. Caniateir hyn yn benodol o dan adran 76(9) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.